DYDDIEDIG 28 MAWRTH 2023

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)

# (GORFODAETH SIFIL A CHYFUNO)

# (DIWYGIAD RHIF 53)

# FFORDD LLEWELYN, Y FFLINT 2023

**Katie Wilby,**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**
**Neuadd y Sir,**
**Yr Wyddgrug,**
**Sir y Fflint,**
**CH7 6NF**

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)

# (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU)

# (DIWYGIAD RHIF 53)

# FFORDD LLEWELYN, Y FFLINT 2023

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

**<u>Enwi a chychwyn</u>**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mawrth 2023 a gellir cyfeirio ato fel GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT FFORDD LLEWELYN, Y FFLINT (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 53) 2023

2. Yn dod i rym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, mae Atodlen Map AL61, Taflen Adolygu Rhif 2, yn disodli Atodlen Map AL61 Taflen Adolygu Rhif 1 ac mae Atodlen Map AM61, Taflen Adolygu Rhif 3 yn disodli Atodlenni Map AM61 Taflen Adolygu Rhif 2 a'r holl atodlenni map eraill ynghyd â'r atodlenni map a grybwyll o'r blaen a chynlluniau y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn cael eu hymgorffori yn y Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013 Cyngor Sir y Fflint.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen gyda rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw, ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn cyfeirio at gynllun wedi'i ymgorffori yn y gorchymyn hwn.

## ATODLEN 1
## Dim Aros ar Unrhyw Adeg
## Y Fflint

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|---|
| Ffordd Llewelyn | AL61 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| | AM61 | 3 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 2 o Orchymyn 2013) |

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y 28 diwrnod hwn o Mawrth 2023 )
yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD** Mared Eastwood

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**~~PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU~~**

**~~UWCH GYFREITHIWR~~**